***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2016 No. 843

# Gorchymyn Ansawdd a Chyflenwad Dŵr (Ffioedd) (Ymgymerwyr sy'n Gyfan Gwbl neu'n Bennaf yng Nghymru) 2016

### Enwi a chychwyn

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Ansawdd a Chyflenwad Dŵr (Ffioedd) (Ymgymerwyr sy'n Gyfan Gwbl neu'n Bennaf yng Nghymru) 2016 a daw i rym ar 8 Medi 2016.

### Dehongli

**2.** Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "arolygydd" ("*inspector*") yw person a benodir o dan adran 86(1) o Ddeddf 1991 (aseswyr gorfodi ansawdd dŵr)(**1**);

ystyr "cyflenwr dŵr perthnasol" ("*relevant water supplier*") yw—

(a) cwmni a benodwyd yn ymgymerwr dŵr(**2**) y mae ei ardal yn gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru; neu

(b) cwmni sy'n ddeiliaid trwydded cyflenwi dŵr o fewn ystyr adran 17A o Ddeddf 1991(**3**) (trwyddedu cyflenwyr dŵr) sy'n defnyddio system gyflenwi(**4**) ymgymerwr dŵr y mae ei ardal yn gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru;

ystyr "Deddf 1991" ("*the 1991 Act*") yw Deddf y Diwydiant Dŵr 1991.

### Ffioedd

**3.**—(1) Caiff y Prif Arolygydd Dŵr Yfed(**5**) godi ffi ar gyflenwr dŵr perthnasol, a honno'n daladwy pan geir anfoneb ar ei chyfer, am arfer y swyddogaethau yng ngholofn 1 o'r tabl yn yr Atodlen gan arolygydd.

(2) Pennir y ffi a godir o dan baragraff (1) yn unol â'r ffi a restrir mewn perthynas â'r swyddogaeth honno yng ngholofn 2 o'r tabl yn yr Atodlen.

(**1**) Diwygiwyd adran 86(1) gan adrannau 56, 57 a 101 o Ddeddf Dŵr 2003 (p. 37) ac Atodlenni 7, 8 a 9 iddi. Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 86 (ac eithrio is-adran (1A)) i Gynulliad Cenedlaethol Cymru o ran Cymru gan erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ("Gorchymyn 1999"). Trosglwyddwyd y pŵer i benodi arolygwyr o dan adran 86 i'r Cynulliad i'r un graddau ag y mae'r pwerau, y dyletswyddau a'r darpariaethau eraill y mae adran 86 yn gymwys iddynt yn arferadwy gan y Cynulliad gan erthygl 2 o Orchymyn 1999. Yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddo, mae swyddogaethau a roddwyd i'r Cynulliad yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru.

(**2**) Fel y'i diffinnir yn adran 6 o Ddeddf 1991.

(**3**) Mewnosodwyd adran 17A gan adran 56 o Ddeddf Dŵr 2003, ac Atodlen 4 iddi. Diwygiwyd hi wedyn gan adran 1 o Ddeddf Dŵr 2014, ond nid yw pob un o'r diwygiadau wedi eu cychwyn.

(**4**) *Gweler* adran 17B(5) o Ddeddf 1991 am ystyr "supply system" ("system gyflenwi") ymgymerwr dŵr y mae ei ardal yn gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru. Mewnosodwyd adran 17B gan adran 56 o Ddeddf Dŵr 2003 ac Atodlen 4 iddi. Mae adrannau 2, 5 a 56 o Ddeddf Dŵr 2014 ac Atodlenni 5 a 7 iddi yn gwneud diwygiadau pellach i adran 17B sydd wedi eu cychwyn yn rhannol.

(**5**) *Gweler* adran 86(1B) am ystyr "Chief Inspector of Drinking Water" ("Prif Arolygydd Dŵr Yfed").

(3) Os arferir swyddogaeth a bennir ym mharagraffau (b), (c) neu (d) yng ngholofn 1 o'r tabl yn yr Atodlen gan fwy nag un arolygydd, rhaid agregu'r amser a dreuliwyd gan bob arolygydd at ddiben cyfrifo swm y ffi sy'n daladwy.

**Dirymu ac arbedion**

**4.**—(1) Mae Gorchymyn Cyrff Cyhoeddus (Cyflenwad Dŵr ac Ansawdd Dŵr) (Ffioedd Arolygu) 2012(**6**) ("Gorchymyn 2012") wedi ei ddirymu.

(2) Mae Gorchymyn 2012 yn parhau i gael effaith mewn perthynas ag arfer swyddogaeth a restrir yng ngholofn 1 o'r tabl yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwnnw gan arolygydd cyn 8 Medi 2016.

*Lesley Griffiths*
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig, un o Weinidogion Cymru

9 Awst 2016

(**6**) O.S. 2012/3101 (Cy. 314).